# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 18 HYDREF, 2012 am 3 o'r gloch** | | **THURSDAY, 18 OCTOBER, 2015 at 3.00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES LANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol Gwreiddiol / Original Independents**

Aled M. Jones, Eric Roberts, G.W. Roberts OBE, Elwyn Schofield, Ieuan Williams

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Mrs. Fflur M. Hughes, W.I. Hughes

**Llafur / Labour**

C.Ll. Everett

**Llais i Fôn**

Selwyn Williams

**Heb Ymaelodi / Unaffiliated**

H. Eifion Jones (Cadeirydd/Chair)

# A G E N D A

1 **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd.

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 **SEFYDLU PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad** | **18 Hydref 2012** |
| **Pwnc** | **Sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Cyng H.E. Jones** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Prif Weithredwr** |
| **Swyddog Cyswllt** | |
| **Natur a rheswm am adrodd** | |

**A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac i benodi un o'i swyddogion yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr awdurdod.

1.2 Yn ei gyfarfod blynyddol ar 10 Mai 2012, penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn i sefydlu'r cyfryw bwyllgor fel rhan o strwythur llywodraethiant corfforaethol y Cyngor, a gwnaeth ddarpariaeth briodol o fewn ei gyfansoddiad i sicrhau gweithrediad effeithiol y Pwyllgor yn cynnwys penodi Cadeirydd iddo.

1.3 Ar 17 Mai, 2012 mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir penderfynwyd ethol y Cynghorydd H. Eifion Jones i wasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am y flwyddyn ddinesig 2012-13.

1.4 Gofynnir i'r Pwyllgor, yn ei gyfarfod llawn cyntaf ar 19 Hydref 2012 i ystyried ei gylch gorchwyl, a'r modd y mae'n mynd i ddatblygu a gweithredu ei raglen waith am y flwyddyn, gan gadw mewn cof y flaenoriaeth uchel sy'n cael ei rhoi bellach o fewn y Cyngor i'r angen am lywodraethiant corfforaethol cadarn yn seiliedig ar broses craffu grymus a'r modd y mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau mewn dull agored, tryloyw a chynhwysol gan greu cyfleoedd am ymgyfranogiad effeithiol â'r cymunedau y mae'n ei wasanaethu.

**2. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**

2.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn dweud fod yn rhaid i awdurdodau lleol:

a) *benodi* pwyllgor gwasanaethau democrataidd;

b) dynodi pennaeth gwasanaethau democrataidd;

c) adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd

ch) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

2.2 Mae'r Mesur hefyd yn cyfarwyddo'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fel a ganlyn:

a) rhaid i bob aelod o'r pwyllgor fod yn aelod o'r awdurdod;

b) ni chaiff mwy nag un o aelodau'r pwyllgor fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith;

c) ni all Cadeirydd y pwyllgor fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith;

ch) rhaid i'r pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn (rhaid iddo gyfarfod hefyd os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylai gyfarfod, neu os yw traean o aelodau'r pwyllgor yn galw am iddo gyfarfod).

2.3 O ran penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mae'r Mesur yn nodi ei bod yn swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol ac na ellir dynodi'r swyddogion canlynol iddi:

a) Pennaeth Gwasanaethau Tâl;

b) Swyddog Monitro;

c) Prif Swyddog Cyllid

2.4 Yn ddarostyngedig i'r uchod, mater i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yw penderfynu sut i arfer ei swyddogaethau.

**3. Penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**

3.1 Gan gadw mewn cof y cyfyngiadau dan 2.3 uchod, mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Pennaeth Gwasanaethau Tâl o'r farn mai'r Pennaeth Polisi ddylai ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn ar sail:

a) ei safle fel Uwch-Swyddog o fewn y strwythur rheolaethol;

b) ei gyfrifoldebau am gefnogi a datblygu aelodau'r Cyngor ym maes polisi, cyfranogiad cymunedol a phrosesau democrataidd;

c) ei berthynas hyd braich â'r drefn craffu o fewn y Cyngor.

3.2 Prif rôl a chyfrifoldeb y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fydd:

a) rhoi cymorth a chyngor i aelodau'r pwyllgor neu bwyllgorau trosolwg a chraffu'r

awdurdod;

b) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn cysylltiad ag

   i) nifer y staff y mae eu hangen i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a'u graddau;
   ii) penodi staff i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd;
   iii) trefnu a rheoli'n briodol staff sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd.

3.3 Wrth ddynodi'r swyddogaeth hon i'r Pennaeth Polisi mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn awgrymu gwneud hynny, yn y lle cyntaf, am gyfnod penodol sy'n ymestyn hyd at weddill tymor y Cyngor presennol, gyda'r bwriad i adolygu'r sefyllfa pan yw'r Cyngor newydd, wedi Mai 2013, ym mabwysiadu ei strwythurau llywodraethu o'r newydd.

## 4. Datblygu a Chefnogi Aelodau i gyflawni'r disgwyliadau arnynt o ran hyrwyddo democratiaeth dda a llywodraethiant corfforaethol grymus o fewn y Cyngor

4.1 Yn gyffredinol, mae'n rhydd i awdurdodau benderfynu ar eangder a chwmpas gwaith y pwyllgor, gyhyd â'i fod yn cyflawni'r gofynion statudol sydd arno. Fel y nodwyd uchod, o ystyried y gweithgareddau sydd ar droed i adfer a gwella perfformiad Cyngor Sir Ynys Môn, argymhellir fod y pwyllgor yn anelu at gynnal o leiaf dri chyfarfod y flwyddyn yn ychwanegol at ei gyfarfod blynyddol (i'r diben o fabwysiadu adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir). I'r diben hwnnw, awgrymir y gallai'r Cyngor ddynodi'r cyfrifoldeb i'r pwyllgor am faterion yn ymwneud â hyfforddiant a datblygiad aelodau'r Cyngor. Mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'w aelodau, yn ogystal â sicrhau bod adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu'r aelod ar gael i bob aelod o'r awdurdod.

4.2 Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor Grŵp Datblygu Aelodau ac mae wedi penodi Pencampwr o blith yr aelodau i sicrhau ei fod yn darparu'n briodol ar eu cyfer ac yn cynnig cyfleoedd mewnol ac allanol ar gyfer datblygiad personol yr aelod. Awgrymir y gallai'r Grŵp Datblygu a Swyddogaeth y Pencampwr ddod yn rhan o weithgaredd y pwyllgor o hyn ymlaen gyda'r pwyllgor yn dod yn gyfrifol am osod cyfeiriad, sicrhau argaeledd a monitro ansawdd y rhaglenni datblygu a chefnogi sydd ar gael.

## 5. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i Aelodau

5.1 Mae gan aelodau anghenion penodol o ran argaeledd at gefnogaeth technoleg gwybodaeth i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol mewn Cyngor sydd a'i fryd ar foderneiddio ei ddulliau gweithredu busnes. Rhagwelir cynnydd tuag at sicrhau fod mwyafrif busnes y Cyngor yn cael ei drosglwyddo'n electronaidd mewn amgylchedd waith sy'n mynd yn llai dibynnol ar adroddiadau papur. Awgrymir y gallai'r pwyllgor, yng nghyd-destun ei gyfrifoldebau i gefnogi aelodau i hyrwyddo democratiaeth dda, ymgymryd â rôl trosolwg o ddatblygiad a hyfforddiant aelodau i ddefnyddio technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol i gefnogi eu gwaith.

## 6. Rhaglen Waith y Pwyllgor

6.1 Yn ychwanegol at ei gyfrifoldeb statudol i lunio adroddiad, ar ddigonolrwydd adnoddau ar gyfer cefnogi craffu effeithiol, i'w gyflwyno i gyfarfod blynyddol y Cyngor Sir (ynghyd a'r gwaith ymchwil ac ati sydd ei angen ar gyfer adroddiad o'r fath) awgrymir y gallai'r Pwyllgor yn ystod ei gyfarfodydd am weddill tymor presennol y Cyngor ystyried rhai o'r materion a ganlyn:

a) datblygiad ac effeithiolrwydd gwefan y Cyngor i hyrwyddo democratiaeth;

b) digonolrwydd y gwasanaeth cyfieithu i gefnogi'r broses ddemocrataidd;

c) rhaglen hyfforddi a datblygu aelodau yn cynnwys adolygiad perfformiad blynyddol yn seiliedig ar swydd ddisgrifiad;

ch) gwneud cais i'r CLILC am statws Siarter Datblygu a Chefnogi Aelodau;

d) ystyried strategaeth ar gyfer datblygu sgiliau TGCh aelodau;

dd) ystyried goblygiadau argymhellion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer sefydlu Cyllideb 2013-14 i swyddogaethau democrataidd y Cyngor;

e) ystyried goblygiadau diwygio cyfansoddiad y Cyngor ar y swyddogaethau democrataidd.

f) ystyried rôl a chyfrifoldebau'r swydd Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd.

## 7. Swydd-ddisgrifiadau Drafft ar gyfer Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor

7.1 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi llunio a chyflwyno swydd ddisgrifiadau drafft ar gyfer bod yn Gadeirydd ac yn aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Fe'u cyflwynir fel atodiad i'r adroddiad hwn a gofynnir i'r pwyllgor ystyried eu mabwysiadu.

## B - Ystyriaethau

## C - Goblygiadau ac Effeithiau

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| | | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anrhefn**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | |

| CH – Crynodeb |
|---|
| |

**D - Argymhelliad**

**8. Argymhellion**

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'r Pwyllgor er mwyn caniatáu iddo fwrw ymlaen â'i waith a chryfhau ansawdd y gwasanaethau democrataidd o fewn y Cyngor. Argymhellir fod y Pwyllgor:

8.1 Yn cadarnhau penodiad y Pennaeth Polisi'n Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd dros dro hyd nes i'r sefyllfa gael ei adolygu gan y Cyngor Sir newydd yn dilyn etholiadau Mai 2013.

8.2 Yn mabwysiadu'r swydd-ddisgrifiadau draft (gweler atodiad) ar gyfer rôl a chyfrifoldeb Cadeirydd y Pwyllgor a rôl a chyfrifoldebau Aelodau'r Pwyllgor.

8.3 Yn argymell i'r Cyngor Sir i ehangu ei gylch-gorchwyl i gynnwys materion yn ymwneud â rhaglenni hyfforddi a datblygu aelodau, yn cynnwys datblygu eu sgiliau a'r gefnogaeth mewn technoleg newydd.

8.4 Yn penderfynu ar brif feysydd ei raglen waith hyd at 30 Ebrill 2013.

8.5 Yn argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cynnal tri cyfarfod cyffredin o'r pwyllgor yn ychwanegol at un cyfarfod blynyddol o fewn pob blwyddyn ddinesig gyda'r hawl i gynnal cyfarfodydd eraill yn ôl y galw.

**Enw awdur yr adroddiad: Richard Parry Jones**
**Swydd: Prif Weithredwr**
**Dyddiad: 15/10/12**

**Atodiadau:**

Swydd-ddisgrifiad drafft Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Atodiad 1)
Swydd-ddisgrifiad drafft Aelod Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Atodiad 2)

**Papurau Cefndirol:**

Atodiad 1

## SWYDD DDISGRIFIAD DRAFFT AR GYFER CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**1. Atebolrwydd**

- Cyngor llawn

**2. Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd**

Darparu, Arweinyddiaeth a Chyfeiriad

- Darparu rheolaeth hyderus ac effeithiol ar gyfer cyfarfodydd i hyrwyddo cynhwysiad, cyfranogiad a phenderfyniadau clir a diamwys.

**Arwain y Pwyllgor yn ei rôl mewn:**

- Dynodi pennaeth Gwasnaethau Democrataidd
- Adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, a sicrhau fod y rhain yn ddigonol.
- Cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r cyngor llawn ar yr uchod
- Penodi is-bwyllgorau a chaderyddion i'r is-bwyllgorau i weithredu'r cyfrifoldebau a ddirprwyir gan y Pwyllgor.
- Ystyried adroddiadau a baratoir yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
- Datblygu strategaeth yr Awdurdod i gefnogi a datblygu aelodau
- Sicrhau fod gan aelodau fynediad at ddarpariaeth resymol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad fel sydd wedi ei osod allan yn strategaeth datblygu aelodau'r Awdurdod a'r Siarter Cyflawni ar Ddatblygiad a Chefnogaeth Aelodau.
- Sicrhau fod y gyllideb ar gyfer datblygiad aelodau'n ddigonol

- Sicrhau fod gan aelodau fynediad at gynllun datblygiad personol ac adolygiadau datblygiad personol blynyddol

- Gweithio hefo'r Pencampwr Datblygiad a Chefnogaeth Aelodau lle bo'n briodol i hyrwyddo rôl aelodau a'r gefnogaeth a'r datblygiad y maent ei angen.

- Arddangos hygrededd ac ymagweddau di-duedd yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â gofynion cyfansoddiad polisïol.

**<u>Hyrwyddo Rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</u>**

- Gweithredu fel llysgennad i'r Pwyllgor gan hyrwyddo dealltwriaeth o'i rôl.

- Gweithredu o fewn gofynion technegol cyfreithiol a gweithdrefnol i archwilio gweithrediad teg a chywir o fewn y Pwyllgor.

- Sicrhau trylwyredd ac agweddau gwrthrychol yn y Pwyllgor gan dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal y cyfarfodydd.

**<u>Llywodraethiant Mewnol, safonau moesol a pherthnasau</u>**

- Datblygu safle a hygrededd y pwyllgor a'i drefn o wneud penderfyniadau

- Deall rolau perthnasol aelodau, swyddogion a phartneriaid allanol a fewn gwasanaethau democrataidd a chwmpas cyfrifoldebau'r Pwyllgor.

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethiant da gan y Cyngor.

**<u>Gwerthoedd</u>**

- Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- bod yn agored a thryloyw

- bod yn onest a didwyll

- bod yn oddefgar a pharchus
- bod yn deg a chyfartal
- gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol
- sicrhau cynaliadwyedd

DRAFT

# Swydd Ddisgrifiad Drafft ar Gyfer Aelod o'r

# Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

## 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

## 2. Rôl, pwrpas a gweithgaredd

- **Deall natur y pwyllgor democrataidd**
  - Bod yn ymwybodol o rôl y pwyllgor a gweithredu'n effeithiol mewn:
    - Dynodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
    - Adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill a ddarperir i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gan sicrhau fod y rhain yn ddigonol
    - Gwneud adroddiadau blynyddol i'r Cyngor llawn mewn perthynas â'r uchod
    - Ystyried cynnwys adroddiadau a baratoir gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
    - Datblygu strategaeth yr Awdurdod ar gyfer datblygiad a chefnogaeth i aelodau
    - Sicrhau fod gan aelodau fynediad at ddarpariaeth resymol o hyfforddiant a datblygiad fel y'i disgrifir yn y strategaeth datblygu aelodau a Siarter Cymru ar Gyfer Datblygu a Chefnogi Aelodau
    - Sicrhau fod y gyllideb ar gyfer datblygu aelodau yn ddigonol
    - Sicrhau fod gan aelodau fynediad at gynlluniau datblygu ac adolygiadau datblygiad personol blynyddol
    - Bod â gwybodaeth dechnegol, gyfreithiol a gweithdrefnol digonol i gyfrannu'n deg a chywir i weithgareddau'r Pwyllgor
    - Bod yn drwyadl a gwrthrychol wrth dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol yn ystod cyfarfodydd a materion gerbron y pwyllgor

RPJ/CB/SWYDDDISGRIFIADGWASDEM

- **Cyfranogi mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**
    - Cyfranogi'n effeithiol mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
    - Gwneud penderfyniadau cytbwys ar sail gwybodaeth, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor sy'n cyd-fynd a gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisïol
- **Llywodraethiant mewnol, safonau moesol a pherthnasau**
    - Sicrhau didwylledd ym mhenderfyniadau'r pwyllgor ac yn y rôl bersonol gan lynu at y Cod Ymddygiad a gofynion cyfreithiol a chyfansoddiadol eraill.
    - Hyrwyddo a chefnogi llywodraethiant da gan y Cyngor
    - Deall a pharchu rolau aelodau, swyddogion a phartneriaid allanol o fewn cwmpas cyfrifoldeb Pwyllgor Democratiaeth

## 3. Gwerthoedd

- Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd swyddi cyhoeddus canlynol:
    - Bod yn agored a thryloyw
    - Bod yn onest a didwyll
    - Bod yn oddefgar a pharchus
    - Bod yn deg a chyfartal
    - Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol
    - Sicrhau cynaliadwyedd

This page is intentionally left blank